Ymchwil y Gronfa Loteri Fawr
Rhifyn 62

Canolfannau Plant Integredig
Crynodeb Ymchwil

Cymru

Canolfannau Plant Integredig Crynodeb Ymchwil
Côd stoc: BIG-ICCVAL62
ISSN 1744-4756 (Print)
ISSN 1744-4764 (Ar-lein)
Ffotograffiaeth: Simona de Michelis, Keith Morris, Robert Rathbone
Ysgrifennwyd gan: Alison Pollard

Copïau pellach ar gael o:
E-bost ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk
Ffôn 01686 611 700
Ffôn testun 01686 610 205

Ein gwefan www.cronfaloterifawr.org.uk

Hygyrchedd
Cysylltwch â ni i drafod unrhyw anghenion cyfathrebu penodol sydd gennych.

Ein hegwyddorion cydraddoldeb
Hyrwyddo hygyrchedd; gwerthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol; hyrwyddo cymryd rhan; hyrwyddo cyfleoedd cyfartal; hyrwyddo cymunedau cynhwysol; lleihau anfantais a gwaharddiad. Ewch i'n gwefan am fwy o wybodaeth.

Rydym yn gofalu am yr amgylchedd
Mae'r Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru yn gweithio tuag at ddatblygu cynaliadwy a'r defnydd o adnoddau cynaliadwy.

Ein gweledigaeth
Rydym wedi'n hymrwymo i ddod â gwir welliannau i gymunedau ac i fywydau'r bobl fwyaf anghenus.

Ein Gwerthoedd
Rydym wedi adnabod saith gwerth sy'n sail i'n holl waith: tegwch; hygyrchedd; ffocws strategol; cynnwys pobl; arloesedd; galluogi; ychwanegol at y llywodraeth.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ymrwymedig i werthfawrogi amrywiaeth a hyrwyddo cyfle cyfartal, a hynny fel dosbarthwr grantiau a chyflogwr. Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn anelu at fabwysiadu ymagwedd gynhwysol at sicrhau bod ymgeiswyr a derbynyddion grantiau, budd-ddeiliaid, ymgeiswyr am swyddi a gweithwyr yn cael eu trin yn deg.

© Cronfa Loteri Fawr, Ebrill 2010

Yn dyfarnu arian
Y Loteri Genedlaethol

Awarding funds from
The National Lottery®

Crynodeb Gweithredol

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi prif ganfyddiadau gwerthusiad deunaw mis a adolygodd effaith pedair Canolfan Plant Integredig (CPI) yng Nghymru. Yn 2005 ariannodd y Gronfa Loteri Fawr gost adeiladu dau ar hugain o CPI ar draws Cymru. Dyma ein dehongliad yn y ddogfen hon o brif ganfyddiadau'r adroddiad gwerthuso. Mae'r adroddiad llawn ar gael yn adran Ymchwil a Dysgu gwefan y Gronfa Loteri Fawr yn www.cronfaloterifawr.org.uk

Y Gwerthusiad

Comisiynodd y Gronfa Loteri Fawr Uned Cymru'r Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg i werthuso effaith pedair CPI yng Nghymru rhwng mis Mehefin 2008 a mis Rhagfyr 2009. Nod yr ymchwil oedd asesu effaith y CPI ar ddatblygiad cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol.

Aeth y gwerthuswr ar ymweliadau astudiaeth achos i bedwar CPI, gan adolygu data monitro a gynhelir gan y Gronfa Loteri Fawr a'r CPI. Hwylusodd y gwerthuswyr drafodaethau grŵp ffocws hefyd, gan gyfweld â budd-ddeiliaid allweddol o Lywodraeth Cynulliad Cymru, sefydliadau trydydd sector, ysgolion lleol, staff sy'n gweithio yn y CPI, rhieni a phlant sy'n mynychu'r CPI.

Canolfannau Plant Integredig yng Nghymru

Mae Canolfannau Plant Integredig yn darparu'r gwasanaethau craidd canlynol:

- Addysg Blynyddoedd Cynnar
- Gofal plant
- Chwarae Mynediad Agored
- Addysg a Hyfforddiant Cymunedol

Maent hefyd yn helpu amrywiaeth helaeth o sefydliadau i gyflwyno gweithgareddau iechyd, dysgu a chwarae i blant a rhieni.

Mae'r canolfannau'n seiliedig ar y cysyniad bod darparu addysg, gofal, cefnogaeth deuluol a gwasanaethau iechyd integredig yn rhoi'r dechrau gorau posib mewn bywyd i blant. Mae strwythur a chyflwyniad y gweithgareddau yn y canolfannau'n seiliedig ar anghenion y gymuned leol.

Sut mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi cefnogi Canolfannau Plant Integredig yng Nghymru?

Yn 2005 ariannodd y Gronfa Loteri Fawr y gost £10.5 miliwn o adeiladu dau ar hugain o CPI ym mhob ardal Awdurdod Lleol yng Nghymru. Gwnaed penderfyniadau gan Awdurdodau Lleol ynglŷn â lleoliad a p'un a ddylid cael canolfan sengl neu system o is-ganolfannau. Mae arian refeniw i gefnogi'r CPI wedi'i ddarparu gan Awdurdodau Lleol.

'Mae'r CPI wedi helpu'r gymuned. Mae rhieni'n gwybod ble mae eu plant, gyda phwy mae nhw a beth maent yn ei wneud'

Rhiant a gwirfoddolwr mewn CPI

Canfyddiadau gwerthuso allweddol

Mae CPI yn diwallu anghenion plant, rhieni a chymunedau lleol

Mae CPI yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i blant, rhieni a chymunedau lleol. Mae'r gwasanaethau y maent yn eu cynnig yn cynnwys Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar, Addysg Blynyddoedd Cynnar, Chwarae Mynediad Agored a chyfleoedd i oedolion ddysgu sgiliau cymdeithasol ac ymarferol. Mae argaeledd mwy cyfyngedig mewn perthynas â darpariaeth Chwarae Mynediad Agored.

Mae cymunedau lleol yn ymwneud â datblygu gweithgareddau yn y canolfannau

Mae pobl leol yn ymwneud â nodi anghenion a chynllunio gweithgareddau ym mhob un o'r pedair CPI. Defnyddir holiaduron a thrafodaethau anffurfiol i alluogi CPI i asesu anghenion cymunedau a datblygu gwasanaethau. Mae rhieni lleol yn chwarae rôl weithredol mewn rhai pwyllgorau rheoli CPI.

Mae lefel uchel o waith partneriaeth ymysg sefydliadau sydd wedi'u lleoli yn y canolfannau

Mae'r canolfannau'n hwyluso gwaith partneriaeth rhwng asiantaethau sydd wedi'u lleoli yn y canolfannau. Mae CPI yn annog rhannu arfer da rhwng ymarferwyr a darparwyr gwasanaethau. Mae hyn yn cyfrannu at ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a gyflwynir. Mae CPI hefyd wedi datblygu perthnasoedd gwaith effeithiol gydag ysgolion lleol.

Mae CPI yn cael effaith gadarnhaol ar sgiliau a datblygiad plant

Mae gan blant sy'n mynychu'r CPI sgiliau cymdeithasol a gwybyddol gwell, maent yn gymdeithasol ac yn gallu rhyngweithio mewn ffordd briodol gyda'u cymheiriaid a chydag oedolion.

Mae CPI yn cael effaith gadarnhaol ar rieni a phlant

Mae rhieni a theuluoedd sy'n defnyddio'r CPI yn elwa o fynediad i hyfforddiant a gwasanaethau cefnogi sydd wedi'u lleoli yn y CPI. Mae nifer o rieni a aeth ar gyrsiau mewn CPI wedi ennill cymwysterau a dod o hyd i swyddi.

Mae cynaladwyedd yn bryder allweddol i CPI

Mae cynaladwyedd gwasanaethau, cyfleusterau a staff CPI yn bryder. Mae llai o arian o ffynonellau canolog a lleol ynghyd ag effaith y dirwasgiad wedi cynyddu pwysau ariannol ar y rhan fwyaf o'r CPI, gan gynyddu'r galw am y gwasanaethau y maent yn eu darparu ar yr un pryd.

'Heddiw gwnaethom ddysgu sut i wneud cebabau ffrwythau a choginio bwyd iach'

Plentyn sy'n mynd i CPI

CAIA PARK PARTNERSHIP LTD

Canfyddiadau'r gwerthusiad

Cefnogi anghenion plant, rhieni a chymunedau lleol

Mae CPI wedi cynyddu mynediad i ofal plant, gweithgareddau blynyddoedd cynnar a chyfleoedd i oedolion ddysgu sgiliau cymdeithasol ac ymarferol. Trwy ddarparu'r gwasanaethau hyn, mae'r CPI yn diwallu anghenion plant a rhieni lleol. Mae'r ddarpariaeth o ran Chwarae Mynediad Agored yn fwy cyfyngedig ac mae CPI yn datblygu ffyrdd o gynyddu cyfleusterau a gweithgareddau Chwarae Mynediad Agored.

Mae'r canolfannau'n cefnogi cyflwyniad effeithiol gwasanaethau Dechrau'n Deg a gweithgareddau Ymwelydd Iechyd drwy ddarparu lle i'r gwasanaethau hyn. Maent hefyd wedi datblygu perthnasoedd gwaith cadarnhaol gydag ysgolion lleol ac yn cefnogi cyflwyno Cyfnod Sylfaen y cwricwlwm.

Cynnwys buddiolwyr a chymunedau lleol wrth nodi anghenion lleol a datblygu gweithgareddau yn y canolfannau

Mae rhieni lleol a'r gymuned ehangach yn ymwneud â nodi'r angen am wasanaethau ym mhob un o'r pedair CPI. Cynhaliwyd ymgynghoriadau cyhoeddus helaeth ynghylch yr angen am y canolfannau a'r gwasanaethau ar yr adeg y sefydlwyd y canolfannau. Mae rhywfaint o bryder bod disgwyliadau rhai cymunedau lleol wedi mynd yn drech na'r hyn yr oedd yn bosib i'w gyflwyno mewn rhai ardaloedd.

Mae'r CPI yn deall bod angen deialog parhaus gyda'r cymunedau yn y fan a'r lle. Defnyddir amrywiaeth o ddulliau i gasglu adborth am y canolfannau, gan gynnwys holiaduron ffurfiol a thrafodaethau anffurfiol ag unigolion a sefydliadau lleol i asesu'r angen am weithgareddau mewn ardaloedd lleol. Mae lefelau llythrennedd isel ymysg rhai rhieni sy'n defnyddio'r CPI yn rhwystr i gasglu adborth mwy manwl am y gweithgareddau a gynigir a'r angen am wasanaethau.

Perchnogaeth ar y canolfannau gan y gymuned

Ymysg y pethau sy'n effeithio ar gryfder ymdeimlad cymuned o berchnogaeth ar ganolfan mae ffactorau megis i ba raddau yr ymgynghorir â chymunedau ac i ba raddau y maent yn ymwneud â phenderfyniadau ynghylch yr adeilad a gweithgareddau a gynhelir yn y ganolfan. Mae hyd yr amser y mae CPI wedi bod ar agor hefyd yn gysylltiedig yn agos â chryfder ymdeimlad y gymuned o'i pherchnogaeth ar ganolfan.

Mae'r pedwar CPI wedi bod yn effeithiol o ran cynnwys rhieni lleol ar bwyllgorau rheoli, ac mae hyn wedi cynyddu perchnogaeth gymunedol ar y canolfannau. Mae estyn ymgysylltu â'r canolfannau ac estyn perchnogaeth o'r gymuned ehangach wedi profi'n fwy heriol, ond mae'r canolfannau'n gwneud cynnydd yn y meysydd hyn. Mae ymdeimlad ar y cyd o falchder a hunan-barch yn y cymunedau sy'n gartref i'r canolfannau'n dangos gwerth y CPI a pherchnogaeth leol arnynt.

Cefnogi plant lleol

O ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau sydd wedi'u lleoli yn y canolfannau, mae plant sy'n mynd i'r CPI yn dangos gwell sgiliau cymdeithasol a gwybyddol. Mae gwell sgiliau cymdeithasol a hyder plant sy'n mynychu'r canolfannau'n gysylltiedig ag ymagwedd gefnogol a gofalgar staff y CPI.

Mae'r CPI wedi datblygu perthnasoedd cryf gydag ysgolion cynradd lleol, ac mae'r perthnasoedd hyn wedi gwella parodrwydd plant lleol i ddechrau yn yr ysgol. Mae'r ddisgyblaeth gadarnhaol yn y CPI yn cefnogi plant wrth iddynt drosglwyddo o'r canolfannau i'r ysgol.

Mae datblygiad dwyieithog plant a'r gymuned leol wedi cael ei gefnogi drwy'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y CPI i raddau amrywiol, gan ddibynnu ar faint o Gymraeg a siaredir yn naturiol yn y cymunedau lleol. Mewn ardaloedd lle mae llai o bobl yn siarad Cymraeg, cafwyd awydd am fwy o gyrsiau Cymraeg i rieni a staff.

Effaith ar rieni a theuluoedd

Mae cyfranogiad mewn cyrsiau addysg a hyfforddiant yn y CPI wedi arwain at rieni'n ennill cymwysterau a chyflogaeth. Mae'r ddarpariaeth gofal plant yn y canolfannau'n galluogi llawer o rieni i fynychu cyrsiau addysg a hyfforddiant. Er bod gweithgareddau i dadau'n cael eu cynnig mewn llawer o CPI, erys angen mewn meysydd eraill i CPI ddarparu'r gwasanaethau hyn.

Mae rhieni a phlant sy'n ymweld â CPI yn teimlo bod eu hiechyd corfforol a seicolegol wedi gwella o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau a phrosiectau ymwybyddiaeth iechyd a gynhelir yn y canolfannau. Mae rhieni'n adrodd bod agweddau cefnogol a chroesawgar staff yn y canolfannau'n chwarae rôl allweddol wrth eu symbylu i wneud gweithgareddau yn y canolfannau.

Mae'r CPI yn darparu lle dymunol i rieni ymlacio a rhyngweithio'n gymdeithasol â rhieni eraill, gan leihau'r unigedd cymdeithasol a brofir gan lawer o rieni lleol.

Mae rhieni a theuluoedd sy'n defnyddio'r CPI yn elwa o well mynediad i wasanaethau drwy leoli amrywiaeth o weithgareddau, sefydliadau a gwasanaethau o fewn un CPI, gan nad oes rhaid iddynt wario arian ychwanegol a threulio amser ychwanegol yn teithio i leoliadau eraill.

Cefnogi cymunedau lleol

Cytunodd rheolwyr canolfannau, asiantaethau trydydd sector, ysgolion lleol a rhieni lleol fod CPI yn darparu manteision sylweddol ar gyfer y cymunedau y maent wedi'u lleoli ynddynt. Teimlodd llawer o bobl y cyfwelwyd â hwy y byddai rhai o effeithiau'r CPI ar draws y gymuned o fudd i genedlaethau'r dyfodol, megis gwell cyfleoedd economaidd, llai o salwch, ffyrdd mwy iach o fyw, gwell cyrhaeddiad academaidd.

Darparu gweithgareddau cynhwysfawr i blant lleol

Darperir amrywiaeth o weithgareddau i blant o bob oedran yn y CPI. Mae rhai, megis sesiynau chwarae rhyngweithiol, ar gael ar y safle, ac mae eraill, megis cyfleusterau chwarae teithiol, yn cael eu darparu o fewn cymunedau lleol. Mae gweithgareddau ychwanegol ar gael yn ystod gwyliau ysgol a thrwy glybiau ar ôl ysgol.

Mae staff y CPI yn cael eu cefnogi i gyflwyno'r gweithgareddau hyn, sy'n darparu amrywiaeth o gyfleoedd i rieni a phlant gymryd rhan yn gynyddol a mwynhau eu hunain o fewn amgylchedd cefnogol a difyr, gan asiantaethau allan, gan gynnwys awdurdodau lleol.

Mae'r mathau o weithgareddau a ddarperir ar gyfer plant yn y CPI a thrwyddynt yn cynnwys:

- Gwibdeithiau i atyniadau lleol a theithiau gwersylla ar y penwythnos yn ystod gwyliau ysgol
- Sesiynau chwarae antur
- Dosbarthiadau iaith a chwarae
- Arddangosiadau coginio rhyngweithiol
- Sesiynau iechyd, gan gynnwys ymweliadau gan ddeintyddion a nyrsys
- Dosbarthiadau darlunio, paentio a chrefft
- Tyfu llysiau mewn rhandiroedd sydd wedi'u dylunio, eu cynnal a'u cadw gan y plant

Dosbarthiadau hyfforddi i gefnogi rhieni lleol

Mae CPI yn cynnal amrywiaeth o ddosbarthiadau i gefnogi dysgu a datblygu sgiliau cymdeithasol, ymarferol a gwaith ar gyfer rhieni lleol. Mae dosbarthiadau'n cynnwys sgiliau TG, dylunio mewnol, sgiliau magu plant a dosbarthiadau Cymraeg. Mae nifer o CPI hefyd yn cynnal dosbarthiadau Saesneg a Mathemateg sy'n rhoi cyfle i oedolion ennill cymwysterau TGAU. Cynhelir y dosbarthiadau gyda'r hwyr ac yn ystod y dydd i sicrhau bod yr holl rieni'n cael cyfle i gymryd rhan. Mae CPI hefyd yn darparu crèche a gofal plant am ddim pan gynhelir dosbarthiadau er mwyn cefnogi rhieni lleol a'u galluogi i'w mynychu.

Systemau i gasglu gwybodaeth am berfformiad CPI

Er bod CPI yn casglu peth data ansoddol ac yn gofyn am adborth ar eu gwaith, mae'r dystiolaeth o systemau sy'n casglu data meintiol cynhwysfawr i fonitro a gwerthuso eu gwaith yn gyfyngedig. Byddai CPI yn elwa o gryfhau gweithdrefnau casglu data meintiol yn systematig i ddangos effaith eu gwaith.

Gwell gwasanaethau a gwaith partneriaeth

Mae lleoli amrywiaeth o sefydliadau a gwasanaethau yn y canolfannau'n annog gwaith partneriaeth a rhannu arfer da rhwng ymarferwyr a darparwyr gwasanaethau. Mae hyn yn cyfrannu at ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau y maent yn eu cyflwyno.

Mae dealltwriaeth gref ymysg sefydliadau Awdurdod Lleol a sector gwirfoddol allweddol ynglŷn â'r ffyrdd y mae CPI yn cyfrannu at gyflwyno strategaethau chwarae, blynyddoedd cynnar, addysg ac iechyd lleol. Ceir perthnasoedd gwaith buddiol rhwng y CPI a mentrau adfywio lleol megis Cymunedau'n Gyntaf.

Cynaladwyedd

Mae cynaladwyedd gwasanaethau, cyfleusterau a staffio'r CPI yn bryder pwysig. Mae llai o arian o ffynonellau canolog a lleol ynghyd ag effaith y dirwasgiad wedi cynyddu pwysau ariannol ar y rhan fwyaf o'r CPI dros y 18 mis diwethaf, ac ar yr un pryd cafwyd cynnydd yn y galw am y gwasanaethau y maent yn eu darparu.

Roedd gan reolwyr bryderon y gall gwtogi ar ariannu yn y dyfodol agos arwain at gau rhai canolfannau neu weithgareddau.

'Mae'r ymagwedd CPI yn cynnwys ffocws cryf ar hyrwyddo gwaith aml-asiantaeth a chyfeirio i wasanaethau'

Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg

Cefnogi tadau i ddysgu sgiliau magu plant

Cynhelir dosbarthiadau magu plant i ddynion mewn Canolfannau Plant Integredig. Mae'r dosbarthiadau'n darparu gwybodaeth a chyngor i alluogi tadau i gymryd rhan yn gynyddol ym mywydau eu plant a gwella eu sgiliau magu plant.

Datblygwyd y dosbarthiadau hyn wrth ymateb i adborth gan dadau a ddywedai eu bod am gymryd rhan yn gynyddol ym mywydau eu plant a bod yn rhieni gwell, ond nid oeddent yn siŵr pwy i ofyn am gymorth. Eu teimlad oedd bod digonedd o grwpiau a dosbarthiadau i famau, ond bron dim byd i dadau.

Mae'r dosbarthiadau'n ymdrin â'r meysydd canlynol:

- Sut i ymdrin â phroblemau ymddygiad.
- Y ffyrdd orau o ddisgyblu eich plant.
- Sut i gefnogi plant yn eu harddegau.
- Gwybodaeth am ysgolion ac addysg.

Byddwn yn gweithio gyda'r CPI a Plant yng Nghymru i rannu'r canfyddiadau ymchwil allweddol gyda sefydliadau sy'n gweithio i wella bywydau plant yng Nghymru. Bydd y canfyddiadau'n cyfeirio datblygiad polisïau a rhaglenni ariannu'r Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn cefnogi plant yng Nghymru drwy amrywiaeth o raglenni ariannu. Mae rhaglen Pawb a'i Le'n ariannu prosiectau sy'n adfywio cymunedau ac yn gwella cysylltiadau cymunedol a'r amgylchedd, gwasanaethau cymunedol ac adeiladau lleol. Mae tua 22% o'r prosiectau rydym yn eu hariannu drwy'r rhaglen hon yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Mae ein rhaglen ariannu Chwarae Plant yn cefnogi polisi chwarae cenedlaethol Cymru drwy fuddsoddi yn yr isadeiledd ar gyfer chwarae plant a phrosiectau chwarae sy'n bwysig o safbwynt strategol.